



Llais y Llan Awst 2022

Copi dyddiad ar gyfer rhifyn nesaf 26 Medi 2022


Cyhoeddwyd gan Llanpumsaint Cyfnewid Gwybodaeth Gymunedol

www.llanpumsaint.org.uk info@llanpumsaint.org.uk

Mae Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Gorllewin Brechfa yn cyfrannu'n arianol at Lais y Llan



Ambell ddiwrnod yn well na'i gilydd



Clare Bishop



Bron yn amser gadael Clare Bishop



Biti Starfo Claire Bishop



Cwmwl Sirws a adweinig fel Cwt y Gaseg – Dyma'r gorau i mi weld erioed – Ray Davies



Gwyfyn Emrallt mawr Ray Davies

CRONFA GYMUNEDOL FFERM WYNT

CRONFA GYMUNEDOL FFERM WYNT
COEDWIG GORLLEWIN BRECHFA



B

BRECHFA FOREST WEST WIND FARM
COMMUNITY FUND

Yn y 4 blynedd ers agor Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Coedwig Gorllewin Brechfa mae £2,323,767.25 wedi'i ddyfarnu i'r cymunedoedd o fewn yr ardal o fudd.

I gael rhagor o wybodaeth am ble mae'r arian wedi'i wario ewch i <https://brechfawestcommunityfund.org.uk>

I ddarganfod a yw eich prosiect yn gymwys ar gyfer arian o'r gronfa, cysylltwch â'r gweinyddwyr, sef Antur Cymru i drefnu cyfarfod gyda Rheolwr y Gronfa drwy ffonio 01239 710238 neu anfon ebost i mmorris@anturcymru.org.uk

Pwyllgor Lles ac Adloniant Llanpumsaint (Y Cae Chwarae)

Digwyddodd y Dydd Hwyl ar y 25ain o Fehefin. Braff fu cael pwyllgorau'r Neuadd, Rhieni ac Athrawon, Yr Eglwys a'r Cae Chwarae yn cydweithio at weithgaredd mor llwyddiannus.

Diolch i bawb wnaeth gyfrannu, I Gwyn Nickolas Llywydd y Dydd, pawb arall am eu hamser, am y gwobrau a'r cyfraniadau, a phopeth arall wnaeth sicrhau llwyddiant y dydd. Prif amcan y dydd fu cael pawb ynghyd gyda'i gilydd, ac fe gasglwyd £1100, fydd yn cael ei rannu rhwng y pedwar pwyllgor. Diolch i bawb ac mi 'roedd yn hyfryd gweld Ras Hwyaidd Nebo yn ôl ar yr afon Gwili.

Cwblhawyd y gwelliannau i'r Cae Chwarae diolch i haelioni Cronfa Fferm Wynt Brechfa.. Diolch hefyd i bawb am eu hamynedd tra 'roedd y gwaith yn mynd yn ei flaen. Gobeithio i'r gwelliannau eich plesio wrth i'r Cae ddatblygu. Diolcha'r Pwyllgor i'r Gronfa am wneud hyn oll yn bosib.

Eleni eto cynhelir ein taith gerdded neu redeg o amgylch Y Cae, felly cadwch lygad ar dudalen Facebook am y diweddaraf a datblygiadau pellach. Fel arfer mae'r Pwyllgor yn edrych am wirfoddolwyr tuag at gynnal a chadw a chodi arian, felly codwch y ffon neu gysylltwch ar parcllanpumsaintpark@gmail.com <<mailto:parcllanpumsaintpark@gmail.com>> neu siaradwch ag Aaron Jones 07814157946 neu aelod arall o'r Pwyllgor.

**LLANPUMSAINT 100
CLUB WINNERS 2022/23**

**ENILLWYR CLWB 100
LLANPUMSAINT 2022/23**

Month Mis	1st - £20 1af - £20	2nd - £15 2il - £15	3rd - £10 3ydd - £10
March Mawrth	105 Hazel Thomas	18 Megan Eldred	34 Ann Jones
April Ebrill	74 Dee Tozer	50 Elsie Jones	68 Roz Evans
May Mai	90 Cath Vimpany	14 Becka Dufty	88 Gwyneth Ayers
June Mehefin	75 Keith Tozer	98 Stuart James	1 John Richards
July Gorffennaf	46 Danny Davies	80 Paul & Juliet	37 Emma Clift
August Awst	1 John Richards	66 Rhodri Jones	28 Ann Wyke

For more information, contact: Am fwy o fanylion, cysylltwch â:
✉ llanpumsaint100club@gmail.com

Thank you! Diolch!

Clwb Cant Llanpumsaint

Tynnir enillwyr Mehefin, Gorffennaf ag Awst yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Lles yn Awst. Gwelir y canlyniad ar Facebook a hefyd ar bosteri tu fewn a thu allan i'r Neuadd. Gellir ymuno o hyd a chael eich cynnwys yng ngweddill y flwyddyn. £12 yw'r gost am gynnig pob mis gan gynnwys yr un fawr Nadolig. Cysylltwch ag aelod o'r Pwyllgor neu e-bost

llanpumsaint100club@gmail.com

Dewinwyr Gorllewin Cymru

Mae dewinio yn arferiad diddorol, a gall unrhyw un ei wneud. Credir iddo ddatblygu o'r Aifft neu hyd yn oed cyn hynny. Bydd nifer o gwmnïoedd yn defnyddio dewinwyr i ganfod dŵr, mwynau, olew neu wifrau trydan. Bydd rhai yn dewinio i ganfod iechyd eu bwydydd, neu olrhain straen geopathi eu hamgylchedd, ond ar hyn o bryd cred bersonol yw hyn heb fendith gwyddonol. Pam na ddewch chi atom i ddysgu mwy. Fel arfer mae gennym amser i siarad ar ddiwedd cyfarfod neu'n well fyth dewch gyda ni ar un o'n teithiau.

Rhoddodd Evie Crystal ddarlith arbennig ar Aromatherapi Ddydd Sul 26ain o Fehefin gan gynnwys amrywiaeth eang o olew persawrus. Gwnaeth annog aelodau i brofi gwahanol bersawr, ac awgrymodd rai i'r profiad ddwyn i gof atgofion o'r gorffennol. Mi sylweddolais fy mod yn gallu arogl'r olew rhosyn drwy'r bag plastig am ddyddiau wedyn. Awgrymodd Evie ei fod yn bosib rhwbio'r olew ar y traed fel ei fod wedyn yn treiddio'r drwy'r holl gorff. Gall rai ohonoch gofio'r mamau cynt yn rhwbio Fic dan draed plant i arbed peswch, ac 'roedd yn gweithio hefyd.

Calendr 2022 - Cyfarfod yn Neuadd Bronwydd 1.45 am 2.00 o'r gloch

Awst – Dim cyfarfod ond yn bosib fydd yna daith i'w threfnu.

25ain Me di - Bu yna newid siaradwr - Ross Broadstock i siarad ar Cymruglyffics. Arweiniad i ddarllen Heiroglyffics yr Aifft gan ddefnyddio'r iaith. Ni fyddwch dan anfantais o wybod Saesneg yn unig.

£12 am ymaelodi am flwyddyn ond £5 y cyfarfod wedi hynny, ac fe fydd yna gwpaned a bisgedi i'r fargen. £6 y tro os nad ydych yn aelod a hynny am ddau gyfarfod. 'Does dim angen cyfarpar jyst trowch lan. Efallai bydd gwisgo mwgwd a chadw pellter yn ofynnol o hyd os nad oes cyflwr meddygol yn eich eithrio. Gwylwch ein gwefan -

<http://westwalesdowers.org.uk> neu ffoniwch Sandy 01267 253547

Te, coffi, cacen
Tea, coffee and cakes

**Neuadd
Eglwys
Llanllawddog**

**Marchnad Gwyrdd
Green Market**

**10fed Medi
10th September
10-12am**

**Neuadd Eglwys Llanllawddog
Llanllawddog Church Hall.
SA32 7JE / remarks.motored.fund**

**Nwyddau a planhigion garddau lleol
Local garden produce and plants**

I gael stondin (£5), cysylltwch â
If you require a stall (£5), contact
Fran.j.dixon@btinternet.com
078 151 47239

Mor ffrwythlon yw ein Caeau

Dan ysbrydoliaeth Arolwg Caeau Sir Gar ymlwybron allan yng ngwres tanbaid mis Gorffennaf er mwyn rhestrï'r blodau gwyllt yn ein caeau lleol. Gwnaethom ganfod 40 gwahanol fath o flodau, 11 gwanhaol borfa mewn dau gae organig. Lle bu defaid yn pori dim ond 11 math o flodyn oedd yno, a lle bu cynhaefu seilej disgynnodd yn llawer llai. Ar hyd ymyl ffordd heol canfuwyd 20 math o flodyn mewn pellter bychan. Lluniwyd y rhestr o wybodaeth Ann, cyfeirlyfrau a Google Lens.

Dyma restr o ddefnydd moddion i rai planhigion

Llygad y Dydd – Am gleisiau ac ambell gnoc

Llygad Eglur - At lygaid tost neu wedi chwyddo

Clafrllys - At buro'r gwaed a thrin ecsema a chlefydon y croen.

Erwain - Yn sanctaidd gan y Derwyddon - At glefydau fel Llog Cylla, Gôr surni, Llid y cylla, Briw a Gwynegon.

Llyriad – At Glefyd y Gwair, pigiaidau, Ysgyfaint gwan, a pheswch parhaol.

Meillionen Goch - Glanhau'r holl gorff, gwella effeithiolrwydd yr organau, hefyd yn dda at y croen ac yn gymorth gyda'r Darfyddiad

Eirinllys - Poen y nerf, llosgiadau clunwst, llog haul, clefyd yr eryr, brech

Meddyges Les – Planhigyn gwrthfotig i wella cleisiau a chytiau hir dymor, ac arbed rhag heintiau

Llysiâu'r Gwaedlif - At bwysau gwaed uchel, clwyfau, diffyg traul a heintiau.

Wedi'r cyneuf bydd y caeau gwair yn safleoedd perffaith i'r gwenoliaid ymarfer bwydo o'r awyr cyn cychwyn ar eu taith hir o 6 mil milltir i Dde'r Affrig.

Claire Bishop - Sally James - Ann Pettitt

Curad Calon Llanpumsaint - Safleoedd y peiriannau Adfywio

- Tu fas y Neuadd Goffa sa336bz
- Tu fas Tafarn y Railwe sa336bu
- Ar y wal tu fas fferm Henfryn Ffynnonhenri sa336ld
- Tu fas Festri Capel Nebo sa336hn

Bowlio Dan-Do Llanpumsaint a Nebo

Wedi'r toriad haf bydd Bowlio'n dychwelid i'r Neuadd ym Mis Medi gyda'n Cyfarfod Cyffredinol. Unwaith cyhoeddir y dyddiad byddwn yn cysylltu â'n haelodau a'i rhoi ar ein gwefan.

Bydd y Clwb yn cyfarfod i ymarfer bob nos Lun a Nos Iau yn y Neuadd o 7.30yh tan 9.30, tan ddiwedd Ebrill. Mae yna groeso i bob chwaraewr newydd o 16 oed hyd 99, ac mae yna hyfforddwy trwyddedig wrth law i'ch cymorth a'ch ysbrydoli. Ceir mwy o wybodaeth drwy ffonio Derick Lock ar 253524 neu ein Hysgrifenyddes Jill Edwards ar 253474.

Cymdeithas Rhandir Llanpumsaint

Shwd mae'n palu! I gychwyn diolch yn fawr i'r rhai wnaeth gyflwyno planhigion i'r Dydd Hwyl er mwyn eu gwerthu, a hefyd i Michelle am gyflwyno'r gweddill at achos da. At Elusen yn cefnogi rhai'n gwella o iechyd meddwl a'u galluogi i brynu planhigion at Ardd Gymunedol, na allent fforddio cynt. Wedi eu plannu pa rhai eisoes yn ffynnu trwyddo.

At newyddion arall, daeth ychydig o law i roi hwb i bethau. Gwelwch isod gynnyrch rhai o'n hymdrechion. Shwd fu eich mefus eleni? Mae'n rhai ni'n anobeithiol, cot fawr a dim byd o tano!



Os oes yna ddiddordeb mae gennym lain neu ddau yn sbâr. Gofynnwch i Rosie 07950 411536 neu Sarah 07811 288104. Mae'n hwyr yn y tymor ond gallech baratoi'r safle gogyfer a'r flwyddyn nesaf neu'r gwanwyn dry daflu digon o arleg arno. Becki

Cór Llanpumsaint a'r Cylch

Ar hyn o bryd mae'r Cór yn cael saib haeddiannol ar ól cymryd rhan yn y Seremoni yn yr Eisteddfod Gernedlaethol yn Nhregaron ar ddechrau'r mis. Mae llawer o bethau ar y gweill am dymor yr Hydref gan gynnwys Noson Gymdeithasol yn Neuadd Goffa Llanpumsaint ar Fedi 30 2022 pan dynnir yr enwau lwcus yn Raffl y Cór gyda'r elw yn mynd tuag at Apel yr Urdd 2023. Manylion pellach i ddilyn.

Fe fydd ymarferion y Cór yn ail-ddechrau am 7.30 y.h. yn Neuadd Cynwyl Elfed ar nos Iau Medi 15 2022. Croeso cynnes i aelodau newydd. Gwyn Nicholas

Marchnad Wyrdd

Eglwysi Llanpumsaint, Celynin Bronwydd, Llanllawddog

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â'r Parch Gaynor Jones- Higgs 01267 253158

Gaynorjones-higgs@hotmail.com neu ewch i Facebook Llanpumsaint.Bronwydd and Llanllawddog Churches / Facebook

Dydd Mawrth – Y Caffi Bach – 11.30 hyd 2.30 yn Eglwys Llanpumsaint

Bore Mercher 9.00yb Boreol Weddi - Eglwys Llanpumsaint

Sul – 9.00yb Zoom – Boreol Weddi
11.00 yb – Llanllawddog a Chelwynin
2.00yp – Llanpumsaint (Nodwch 14eg Awst Gwasanaeth y Goedwig -
Felly dim byd yn Eglwys Llanpumsaint)

Digwyddiadau ar y gorwel

Sadwrn 10fed Medi - Marchnad Wyrdd - Neuadd Eglwys Llanllawddog

Nos Wener 7fed Hydref - Swper y Cynhaeaf - Neuadd Goffa Llanpumsaint

Bydd Cylch Ieuentid Dot a chwarae Duw yn cymerid hoe fach dros wyliau'r Haf ac yn dychwelid ym Mis Medi.

Mae lle yna i aelodau newydd i Gylch Dot o ddeg oed ymlaen yn Medi. Cysylltwch a'r Parch Gaynor os oes na ddiddordeb. Cylch Ieuentyd gyda natur Gristnogol yw Dot ond yn agored i bawb o bob ffydd neu ddim. Ar hyn o bryd llwyddom i gynnig pob gwasanaeth yn rhad.

Rydym fel arfer yn cwrdd ar Nos Iau ac fe'n cydnabyddir fel Cylch Heddwch Mala. Peace

Mala-Creative education that empowers and embraces all, uniting the world in peace

Dyma ein rhaglen am y tymor nesaf

Nos Iau 8fed Medi – Eglwys Llanpumsaint – Croeso ‘nol – Ymlaciwch!

5.30yh – 7.30 – Noson Gofrestri

Nos Iau 15fed Medi 5.30 – 7.30yh – Ymchwil Laser, Gorsaf Laser ger yr hen orsaf drenau

Nos Iau 22ain Medi - Eglwys Llanpumsaint 5.30 - 7.30yh

Noson Heddwch Mala - Breichled – Gemau Amrywiol

Nos Iau 29ain Medi - Neuadd Goffa 5.30 – 7.30yh – Profi chwarae Bowlio

Nos Wener 7fed Hydref - Neuadd Goffa Swper y Cynhaeaf

Nos Iau 13eg Hydref - 7.30 - 9.00yh Canolfan Trosgrog Caerfyrddin

Profi Dringo - Cyfleoedd cyfyng felly'r cyntaf i'r felin i falu

Nos Iau 20fed Hydref - 5.30 – 7.30yh - Eglwys Llanpumsaint, Noson Grefft Eithafol

Nos Iau 27ain Hydref 5.30 – 7.30yh Ar Zoom Cyflwyno Sefydliad Elusennol Sophie Lancaster

Sul y Môr

Yng Ngorffennaf newidiodd eglwys y Goedwig i fod yn Sul y Môr ar draeth Llansteffan, i fwynhau'r golygfeydd yno yng nghwmni eraill o bob oed.

Bob blwyddyn bydd eglwysi dros y byd yn dathlu Sul Y Môr, i weddio dros y morwyr a'r pysgotwyr ac i ddiolch iddynt am eu cyfraniad i'n bywydau. Yn y byd sydd ohoni cludir dros 90 y cant o'r fasnach dros y môr a hebddynt byddai'r byd ar stop, gyda'r holl niwed i fasnach a swyddi. Gyda llynges o dros 400 o longau yn cyflogi rhyw fil o forwyr a chyda nifer fawr eto o bysgotwyr (llawer yn rhan amser) maent oll yn allweddol i economi Cymru ac yn cynnal ein cymunedau ger yr arfordir.

Arweiniodd y Parch Gaynor daith hamddenol am y traeth drwy goedwig uchel wnaeth ein cysgodi oddi wrth yr haul tanbaid. Hyn yn ein galluogi i werthfawrogi'r amgylchfyd godidog sydd gennym o fewn ein cyrraedd. Ar y daith gyfeillgar yma cawsom gyfle i gwrdd i gwrdd â chyfeillion newydd ac elwa o gerdded. Daeth siawns fendithiol i wlychu'n traed yn nŵr y môr hefyd.

O ddychwelid o'r traeth profodd y brechdan pysgod yn fendithiol (Da iawn Clive) gyda digonedd o salad a saws at y blas. Gorffennwyd brynhawn hyfryd gyda hufen ia hyfryd.

Gobeithio eich gweld ar ein cyfarfod nesaf o Eglwys y Goedwig fedd ar 14eg o Awst yn Llanpumsaint. Daw manylion pellach ar wefan Facebook yr eglwys. Sally James

Clwb Gwili Chwedeg

Bu 'r ymweliad a'r cyn carchar Rhyfel yn Henllan a'r Capel yno hynod o ddiddorol ac yn llawn emosiwn ar adegau. 'Roedd y perchennog yn angerddol iawn ynghyn a'r addoldy adeiladwyd

gan y carcharorion o ddeunydd wedi ei gasglu o bobman. Gwnaeth un ohonynt fu cynt yn emydd greu campwaith celfydd, ac wedi'r Rhyfel orffen dychwelodd gyda'i deulu a rhai cyn carcharorion. Bu'n well canlyniad iddynt fod wedi gweithio ar ffermydd Cymru a phiodi i mewn i deuluoedd lleol na rhyfela.

Daeth croeso twymgalon ym Marc Bywyd Gwyllt Cilgerran gan gynnwys cinio blasus. Yn anffodus oherwydd y tywydd bach iawn o flodau a welsom, a siom arall i'n haelodau ni welwyd y dwrgwn na'r un glas y dorlan; ond na fe cael a chael yw hi! Diweddwyd yn hapus gyda phryd bwyd y Ffostrasol Arms.

27ain Mehefin - Rhoddodd Dorian Davies Archddiacon Cymru arddangosfa feistrolgar o'i ddawn o drefnu blodau. Hefyd synnwyd aelodau gyda'i hiwmor sych wnaeth roi rhai yn eu dyblau'n aml. Rafflwyd y tri chynnyrch gorau.

17eg Awst - Taith i Reilffordd Fynyddig Brycheiniog a'r ganolfan ymwelwyr yno.

Gwybodaeth bellach gan Val Giles - Ysgrifenyddes 01267 194.

22ain Awst ; Peter Huws- Griffiths – Pwnc yw drefnu!

14eg Medi - Taith yw trefnu - O bosib San Ffagan.

Llun 26ain Medi – Degfed Pen blwydd Clwb Gwili – Manylion i ddilyn.

CYLCH MEITHRIN BRONWYDD

This term, we have spent a lot of time in the outdoors making the most of the weather. The children



have enjoyed watching flowers growing in the garden. They have also enjoyed playing in the park and by the river. We were fortunate, this term, to visit the Botanic Garden at Llanarthney on two occasions. On 17th June, the children and their parents attended the Meithrin Festival for the special show by Siani Sionc and Dewin. On the 13th July there was an opportunity to visit the garden again for water play which included building a small raft and racing it, and pond dipping. The children found a few interesting creatures. There was an opportunity to examine them closely before returning them safely to the pond.

This term we are saying good-bye to Anti Meleri who is moving on to a new job in September. We will be getting together to say good-bye to Meleri at Florentino's on 1st August. We wish her well for the future.

We return to the Cylch on Tuesday 6th September, with Ti a Fi returning on Friday 9th September.

Rhagor o Sgambiau Ffon

Falle i chi gofio fi'n son fod gennym Floc ar ein ffon sydd wedi rhwystro'r galwadau ffug cant y cant. Ambell dro mae angen troi'r gwasanaeth bant oherwydd ein bod falle'n disgwyl galwad gyfrinachol o'r Banc. Beth amser 'nol daeth galwad drwyddo pan oeddem wedi troi'r Bloc bant ac aeth ymlaen i'n gwasanaeth ateb. Ond nid oedd neges. Amheus oherwydd

ymddangosai'r alwad fod yn un lleol 01267 295360.. O alw 'nol dywedwyd nad oedd y rhif yn bodoli. Wedyn daeth galwad arall o 01267 295190 a dyma ni'n gwranddo ar y neges. Honnid fod arian wedi eu tynnu o'n cyfri Banc a bod £1000 arall i ddilyn os na fyddem yn gwasgu'r botwm 1. Fel y gwyddom eisoes os gwasgwch chi hwnnw fe'ch trosglwyddir i rywle costus iawn.

Mae'n ymddangos fod y sgamwyr yn targedu rhifau 01267 ar hyn o bryd, felly byddwch yn ofalus. Gyda llaw bu yna raglen dda ar Sianel 5 ar y 9fed o Fehefin ynghyn a sgamiau ei enw oedd - Phone Scams - Dont get caught out.

Mae ar My5 I Player ac ar gael hyd 3dd Ebrill 2023. Teipiwch Phone Scams yn y bocys ymchwil. Dave

SIOE CFFI
CYNWYL ELFED
YFC SHOW

Dydd **SADWRN** Gwyl y Banc 27 Awst 2022
Bank Holiday **SATURDAY 27 August 2022**

I gychwyn am 10.30 - To commence at 10.30

CAE'r "Shed" FIELD, Panthwdog, CYNWYL ELFED
(gan ganiatod - by kind permission of Mr E Williams, Panthwdog)

CLASSES FOR: Cattle, Sheep, Goats, Alpacas, Fun Dog Show, Pets, Farm Produce, Garden Produce, Flowers, Floral Art, Cookery, Dairy Produce, Preserves, Handicrafts, Rural Crafts, Wines & Meads, Children's Section and Vintage
(Entries taken on the day- no class entry fees)

Show Queen, Attendants & Prince Charming to be Judged at 10.30am on Show Day

Rhaglenni llawn ar gael yn / Full programmes available from Cynwyl Elfed Premier Shop + Windy Corner Garage, Pencader + Derwydd Services, Cynwyl Elfed

President: **Mr A Davies, Blaengofer, Cynwyl Elfed**

Mynediad / Admission:

Oedolyn / Adult £ 6.00

Plant dan 16 oed £2.50 / Children under 16 years £2.50

Plant dan 12 oed am ddim / Children under 12 years free

Am fanylion pellach ynglun a'r Sioe, neu i ddod a stondyn cysylltwch a:
For further information regarding the Show, or to bring a stall/stand, contact:

Mrs Meir Davies, Clynmaenllwyd, Hermon, Cynwyl Elfed, Carmarthen (Tel: 07816 788751)



FARMERS' UNION OF WALES
01970 820 820
post@fuw.org.uk



FUW INSURANCE SERVICES
0344 800 3110
info@fuwinsurance.co.uk

FUW Insurance Services Limited is authorised and regulated by the Financial Conduct Authority. Registration No 815251

Cyngor Cymuned Llanpumsaint

Dymuna'r aelodau ddiolch i bawb wnaeth gynnig syniadau adeg y Dydd Hwyl ym Mehefin. Byddwn yn eu trafod yn ein cyfarfod ym Mis Medi pan fydd croeso i bawb fod yn bresennol. Mae ein cyfarfodydd bob amser yn agored ac fe gyhoeddir yr agenda ymlaen llaw bob tro. Felly cynhelir ein cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth 23ain o Fedi am wyth o'r gloch yn y Neuadd. Yn dilyn hynny bydd y nesaf ar yr 8fed o Dachwedd 2022.

Mae 'r Cyngor yn awyddus i gyflogi Clerc rhan amser am ryw 5 awr yr wythnos gyda'r gallu yn y Gymraeg, oherwydd mae honno yw iaith cyfathrebu'r Cyngor (gyda gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i'r rhai sydd angen). Dibynna'r cyflog ar brofiad er nad oes profiad yn angenrheidiol, oherwydd bod hyfforddiant ar gael. Os oes gennych ddiddordeb yn y swydd hon cysylltwch â'r Cadeirydd Y Cyngorwr Arwel Nickolas ar 01267 281365 am sgwrs anffurfiol.

Mae'r Cyngor hefyd yn edrych at gyfethol er mwyn llanw dau le gwag ar y Pwyllgor.

Cyhoeddwyd dogfen yn egluro swydd a chyfrifoldeb Cyngorwr gan Un Llais Cymru a gellir llawr lwytho hwnnw o'i gwefan www.onevoicewales.org.k <<http://www.onevoicewales.org.k>>

neu drwy ffonio 01269 595400 . Gellir hefyd ffonio'r Cadeirydd Arwel nickolas fel y nodir uchod neu'r Clerc dros dro Kumi Ariyadasa ar 07799 898002 am wybodaeth bellach. Felly er gwybodaeth i bawb ac yn enwedig newydd ddyfodiaid i'r gymuned nodwn fod y Cyngor yn noddi'r wefan hon www.llanpumsaintwalk.org.uk <<http://www.llanpumsaintwalk.org.uk>> sydd yn tywys ymwelydd ar daith gerdded drwy ein pentref hanesyddol.

Bore Coffi Apel yr Urdd 2023



Llawer o ddiolch i bawb a gyfranodd tuag at lwyddiant ysgubol y Bore Coffi a gynhaliwyd ar Orffenaaf 16 2022. Roedd yn fore llwyddiannus iawn gyda elw o £1300. Eto llawer o ddiolch i bawb. Gwerthfawrogir eich cefnogaeth yn fawr iawn.

Neuadd Goffa Llanpumsaint & Ffynnonhenri Memorial Hall

Llogi'r Neuadd Er mwyn llogi'r Neuadd a wnewch chi gysylltu ag Ann trwy e-bost llanpumsainthallbooking@gmail.com neu ar 01267 253028 a gadael neges iddi.

Brics Codi Arian A hoffech chi brynu bricsen i roi ar y wal tu fewn i'r Neuadd? Rydyn ni nawr yn derbyn archebion. Mae angen pump archeb arnom ni, cyn i ni fedru prynu'r brics. Pris y brics yw £50 yr un. Am fwy o wybodaeth a ffurflen archebu cysylltwch â Catrin Eldred ar 07772235243.

Zumba Bydd sesiynau zumba yn dechrau'n wythnosol yn y neuadd o'r 7fed o Fedi. Pris sesiwn bydd £6. Croeso i bawb.

Noson Robbie Williams Bydd y noson tribute nôl eleni ar yr 8fed o Hydref. Bydd y tocynnau yn mynd ar werth o'r 3ydd o Fedi, am £15 yr un. Cysylltwch â Mathew ar 07970 030679 i'w archebu.

Taliadau'r Neuadd

Wrth yr awr os na nodir yn wahanol

Y Brif Neuadd - Canol wythnos - £8, Dydd Gwener a 'r penwythnos -- £10

Y Brif Neuadd a'r Gegin - Canol wythnos - £10, Dydd Gwener a'r penwythnos - £12

Unrhyw Ystafell Gyfarfod unrhyw ddydd - £5, Unrhyw Ystafell Gyfarfod a'r Gegin unrhyw ddydd £7

Angladdau gyda'r Gegin a'r Llestri £40 unrhyw ddydd - £40 cyfanswm

Cyfleusterau Ychwanegol Sain a Goleuadau - taflunydd a sgrin - Piano trydan - Llwyfan a llestri - I gyd yn £10 am gyfnod y llogi

Gwasanathau Capel Nebo

Am fwy o wybodaeth am yr uchod, gellir cysylltu a Meinir Jones, ysgrifenyddes y Capel ar 253532.

Capel Ffynnonhenri

Os am fanylion pellach cysylltwch a Danny Davies, Trysorydd ar 01267 253418 neu Gwyn Nicholas Ysgrifennydd ar 01267 253686

Caersalem - Os byddwch chi am ddod i'r cwrdd, ffoniwch 253895 am fwy o fanylion

Y Stand Lath

Fe welwch un neu ddwy o hyd yn llechu dan dyfiant o fwswm ar ben hewl fferm yma ac acw. Llonyddwch trist lle bu cynt gymaint o gynnwrf dyddiol. Pan aeth ffermydd i werthu llaeth i ffatrioedd fel y Cow and Gate 'nol yn y 1930degau gosodwyd chyrns ar y Stand ar ben heol. Casglwyd hwy'n ddyddiol gan y Lorri Lath, a fyddai'n gadael yno yr un rhif o ganiau gwag at dranoeth. Byddai rhif y caniau'n datgeli pa mor dda oedd y gwartheg yn godro ar y fferm honno. . Erbyn y 1980degau perswadiwyd llawer i roi'r gore i gynyrchu llaeth, ac erbyn hyn a aeth yn ddiwydiant i'r ffermydd mawr bellach. Pan ddaeth y tancer mawr i gasglu'r cynnyrch o'r clos ar hyd heol fach ehangach, gwelwyd teyrnasiad y stand lath yn dod i ben. Tynnwyd rhai lawr i wella'r fynedfa, ac anghofwyd am y gweddillwrth i'r mwswm a'r mieri ledaenu drostynt

Ond yn ol yn eu dyddiau cynnar buont yn ganolfannau pwysig. Mewn oes cyn i'r cyfryngau radio a theledu adrodd hanesion lleol, dyma oedd prif ffynhonnell newyddion y dydd. Byddai'r gyrrwr lori yn casglu a dosbarthu mwy o glecs lleol na chyrns yn amal. - Pwy sy'n meddwl prynu tractor – Pwy sydd wedi lladd gwair – faint o'dd yn Capel Bethel Sul diwetha' – Pwy sy'n dishgwyl- hisht w!-pidwch gweud! – shwd o'dd prishe'r mart ddydd Mercher. Bydde'r ffarmwr bach y hasti gatre gyda'r chyrns a'r holl newyddion. Daeth y Stand Lath yn nefoedd i'r posman boed mewn fan neu a'r droed, wrth i'r llythur fynd i'r chym a charreg wrth ben arbed taith bob cam lawr i'r ffermdy. Yno fydde'r chec lath holl bwysig yn lando.

O sylwi'n fanwl gallwch weld o hyd lle mae rhai o'r Stands wedi goroesu. Yn weladwy iawn, wrth fynedfa Y Felin Llanpumsaint. Cwmwernen, Ffynnonhenri mewn cyflwr da, ac yn bellach i ffwrdd ger y Pane Esgair Cynwil, a Nantybocath ar derfyn Penrhewlgam. Rhaid edrych yn fwy manwl i ganfod yr un ar waelod rhiw Cwpers ger mynedfa Troedyrour, ac un Ffynnonfelen islaw Nebo tua Bronwydd. Maent i gyd yn wag bellach ac mi ddiflannodd yr un ger Cwmdwfnw Nebo yn ddiweddar.

Ond daeth eto haul ar fryn. Mae Stand Lath Henfryn wedi ad-ennill pwysigrywdd, gan iddi bellach gynnal peiriant Adfywio allai arbed bywyd rhyw ddydd. Yna wrth fynedfa Bryncene cyn Rhiw Graig mae'r Stand yma yn cynnig danteithion ar werth i bawb sy'n paso. Mae'r ddwy yma wedi bywiogi at ofynion yr oes, felly gobeithio y gwnant sbarduno eraill i ymateb ac ail gynnu fflam i'r gweddill sy'n dal i gysgu dan fwswm.

Arwyn 2022



Ffynnonfelen wedi Nebo tua Bronwyd



Ar waelod Rhiw Cwper



Mynedfa'r Felin Llanpumsaint



Fferm Henfryn Ffynnonhenri



Brycene cyn Rhiw Graig



Village Voice August 2022

Copy Date for next Edition September 2022

Village Voice is published by Llanpumsaint Community Information Exchange www.llanpumsaint.org.uk email info@llanpumsaint.org.uk. Please send items to info@llanpumsaint.org.uk or post to Bodran Felin, Llanpumsaint SA33 6BY



Brechfa Forest West Wind Farm Community Fund provides some funding for Village Voice and our website www.llanpumsaint.org.uk. We also receive funding from Llanpumsaint Community Council and all our advertisers. We thank them all for the support.



Some days are good



Some days are not so good – That's Life
Clare Bishop



Nearly Time to go - Clare Bishop



Feed me! – Clare Bishop



Cirrus cloud formation called a mare's tail sky. It's the best one I've ever seen. Ray Davies



Large Emerald Moth Ray Davies

CYLCH MEITHRIN BRONWYDD

This term, we have spent a lot of time in the outdoors making the most of the weather. The children have enjoyed watching flowers growing in the garden. They have also enjoyed playing in the park and by the river. We were fortunate, this term, to visit the Botanic Garden at Llanarthney on two occasions. On 17th June, the children and their parents attended the Meithrin Festival for the special show by Siani Sionc and Dewin.



On the 13th July there was an opportunity to visit the garden again for water play which included building a small raft and racing it, and pond dipping. The children found a few interesting creatures. There was an opportunity to examine them closely before returning them safely to the pond.

This term we are saying good-bye to Anti Meleri who is moving on to a new job in September. We will be getting together to say good-bye to Meleri at Florentino's on 1st August. We wish her well for the future.

We return to the Cylch on Tuesday 6th September, with Ti a Fi returning on Friday 9th September.

If you are interested in your child attending Cylch, please contact Verona on 07929 431652 or at cylchmeithrinbronwydd@gmail.com. During term time, we will be open from Tuesday until Friday from 9:15am until 12:00noon. Thanks, Verona.

Llanpumsaint Welfare and Recreational Association (Llanpumsaint Park)

The Funday was held on the 25th June. It was great to have the village committees (Hall Committee, the PTA, the Church and Park) come together, for what was a fantastic event. Thank you to all of those who attended, Gwyn Nicholas (president of the day), all of those who contributed time, prizes and donations, which ensured that it was a great success. Even though the priority was to get the village to come together once more, the day itself raised around £1100, which will be equally shared between the four committees. So, thank you! It was great to see the Duck Race by Nebo back as well.

Works to renew and replace some of the play equipment in the park, thanks to the funding received from the Brechfa Windfarm Fund, is completed. We thank you for your patience while this work has been ongoing. We hope that you are pleased with the result, and we hope that this is the start of the changes to the park. The committee would like to thank the Brechfa Windfarm Fund for making this possible.

Once again this year, we are holding the August Sponsored Run/Walk around the park, so keep an eye out on the Llanpumsaint Facebook Page for any updates and further planned events.

As ever, the committee is looking for new volunteers to help with the ongoing maintenance and fundraising for the park. If you would like to help then please get in touch with us via our email parcllanpumsaintpark@gmail.com, or speak to Aaron Jones (07814157946) or any other committee member for more information.

Llanpumsaint 100 Club

The winners for June, July and August will be drawn at the Llanpumsaint Welfare and Recreational Association's meeting in August. Keep an eye out on the Llanpumsaint Facebook for the result, as well as posters in and outside the Hall.

LLANPUMSAINT 100 CLUB WINNERS 2022/23					
ENILLWYR CLWB 100 LLANPUMSAINT 2022/23					
Month	1st - £20	2nd - £15	3rd - £10		
Mis	1af - £20	2il - £15	3ydd - £10		
March Mawrth	105 Hazel Thomas	18 Megan Eldred	34 Ann Jones		
April Ebrill	74 Dee Tozer	50 Elsie Jones	68 Roz Evans		
May Mai	90 Cath Vimpany	14 Becca Dufty	88 Gwyneth Ayers		
June Mehefin	75 Keith Tozer	98 Stuart James	1 John Richards		
July Gorffennaf	46 Danny Davies	80 Paul & Juliet	37 Emma Clift		
August Awst	1 John Richards	66 Rhodri Jones	28 Ann Wyke		

For more information, contact: Am fwy o fanylion, cysylltwch â:
 ✉ llanpumsaint100club@gmail.com

Thank you! Diolch!

CRONFA GYMUNEDOL FFERM WYNT
COEDWIG GORLLEWIN BRECHFA



BRECHFA FOREST WEST WIND FARM
COMMUNITY FUND

In the 4 years since the Brechfa Forest West Community Wind Farm opened £2,323,767.25 has been awarded to the communities in the Fund's area of benefit.

For more information on where the money has been spent go to <https://brechfawestcommunityfund.org.uk/>

To find out if your project is eligible for funding, please book a 1:2:1 funding surgery with the Fund Manager by calling local fund administrators Antur Cymru on 01239 710238 or email mmorris@anturcymru.org.uk

West Wales Dowsers

